PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 27 | Gorffennaf 7, 2022 | 50c.

## Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn

*Cynhaliwyd y Cwrdd Chwarter ar nos Fawrth, 24 Mai, yng nghapel Libanus, Benllech. Yr oedd 25 yn bresennol yn cynrychioli amrywiol eglwysi'r Cyfundeb. Dyma fraslun o'r hyn a ddigwyddodd, yr hyn a drafodwyd a'r hyn a benderfynwyd yno.*



Croesawyd y cynrychiolwyr gan y cadeirydd sef y Parchg Ronald Williams, Y Tabernacl, Porthaethwy. Yna, cynhaliwyd defosiwn. Darllenwyd o Ioan 21, offrymwyd gweddi ac yna gwahoddwyd y gynulleidfa i gydadrodd Gweddi'r Arglwydd. Darllenwyd a derbyniwyd fel rhai cywir gofnodion y Cwrdd Chwarter a gynhaliwyd ar 22 Chwefror yn Ebeneser, Rhosmeirch. Roedd rhai materion yn codi o'r cofnodion sef, (a)



Dywedwyd fod mater y wal derfyn yn Llanddaniel-fab bellach yn dod i drefn, a gobeithir cyhoeddi yn y cyfarfod nesaf fod y cyfan wedi ei wneud. (b) Adroddwyd nad oedd dim wedi ei glywed eto am werthiant yr eiddo yn ymyl capel Salem, Bryngwran. (c) Etholwyd y Parchg Ddr Geraint Tudur yn is-gadeirydd y cyfundeb. (ch) Coleg yr Annibynwyr. Gofynnodd y Trysorydd, Mr Bryn M. Roberts, i eglwysi sydd wedi cyfrannu, neu sydd am wneud hynny, roi gwybod iddo.

### Ceisiadau am nawdd ariannol

(a) Dywedwyd fod cais capel Sardis, Bodffordd, i'w gyflwyno cyn y cyfarfod nesaf. (b) Cymeradwywyd cais Libanus, Benllech, gan y trysorydd gan ei fod wedi ei gyflwyno yn unol â'r drefn ddisgwyliedig. Gofynnwyd i'r gynulleidfa bleidleisio i ganiatáu y cais a chafwyd pleidlais unfrydol. (c) Cais Bethel, Maes-y-llan. Gofynnodd y trysorydd am fanylion diweddarach nag a gafwyd hyd yma, a gobeithir y bydd popeth yn barod erbyn y cyfarfod nesaf. (ch) Ychwanegodd y trysorydd mai ei fwriad yw anfon Adroddiad Ariannol y Cyfundeb at yr eglwysi gyda'r cofnodion nesaf.

### Gohebiaeth

Dywedodd yr ysgrifennydd, Mr Edward Morus Jones, nad oedd gohebiaeth ond ynglŷn â'r materion a drafodwyd eisoes. Ychwanegodd y byddai'n gwerthfawrogi pe byddai'r Cwrdd Chwarter yn dod o hyd i olynydd iddo i ymgymryd â'r gwaith ymhen tua blwyddyn. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith caled a chyson yr ysgrifennydd gan y cadeirydd.

### Sylwadau

Gwahoddwyd cwestiynau/sylwadau o'r llawr. (a) Holwyd am gynnwys y *safe* yng nghapel Smyrna, Llangefni. Dywedodd yr ysgrifennydd fod y papurau oedd ynddi yn ei feddiant ef ac eto i'w didoli. (b) Gofynnodd y cadeirydd a oedd ymateb i'r her a osodwyd i'r eglwysi yn y cyfarfod

*parhad ar dudalen 2*

## Llawenydd



O dan arweiniad didwyll a ffeind y Parch. Meirion Evans derbyniwyd dau o ieuenctid y capel yn aelodau llawn yn ddiweddar, sef Keira a Dafydd Lyons – brawd a chwaer. Y rhain yw'r bedwaredd genhedlaeth i'w derbyn yn aelodau o deulu sydd a'i wreiddiau yn ddwfn yng Nghapel Als ac sydd yn ffyddlon iawn i'r achos.

Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn dyfnhau eu ffydd a phob bendith iddynt fel aelodau o eglwys Iesu Grist.

**John Williams**

# Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn – parhad

diwethaf, sef meddwl am weithgarwch, a rhannu'r syniad yn y cyfarfod hwn.

**Tabernacl, Porthaethwy.** Dywedwyd fod yr eglwys wedi ymateb i anghenion Wcráin, a hynny ar fyr rybudd. Hefyd, mae bwriad i sefydlu gweithgarwch Llan-llanast yn yr ysgol Sul o fis Medi nesaf, ac y mae oedfaon y Sul yn cael eu 'darlledu' ar y ffôn i'r sawl sy'n dymuno ymuno yn yr addoliad.

**Carmel, Moelfre.** Mae'r eglwys wedi cyfrannu swm sylweddol i'r Groes Goch, i'w ddefnyddio yn Wcráin. Bu aelodau hefyd yn casglu dillad.

**Berea, Pentreberw.** Bu'r clwb gwau yn gwneud blancedi i'w hanfon i Wcráin.

**Libanus, Benllech.** Bu'r eglwys yn casglu bwyd i'w roi i'r banc bwyd.

### Diffyg pregethwyr

Soniodd y cadeirydd fod amryw wedi dweud wrtho eu bod yn cael trafferth i ddod o hyd i bobl i arwain eu gwasanaethau ar y Sul ac i bregethu. Cyfeiriodd at syniad oedd wedi bod o help i eglwysi yng Nghyfundeb Meirion, sef prynu 'dongle' i gyfrifiadur i'w alluogi i gysylltu â'r we a thrwy hynny alluogi'r gynulleidfa i ymuno mewn gwasanaeth Zoom gydag eglwys arall. Gofynnwyd o'r llawr, pwy allai roi cyngor ynglŷn â hyn ac addawyd dod ag enwau i'r cyfarfod nesaf.

### Cyhoeddiadau

(a) Bydd y cyfarfodydd chwarter nesaf ar 27 Medi a 22 Tachwedd. (b) Bydd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn cael eu cynnal yng Nghaerfyrddin ar 7-9 Gorffennaf. Bydd yn bosibl ymuno ynddynt trwy Zoom. (c) Mae Alun Moreton Thomas wedi derbyn galwad i ofalaeth Llanfairpwll a'r Cylch ac i gael ei ordeinio yn Sasiwn Tachwedd EBC. (ch) Datgorfforir eglwys Smyrna, Llangefni, am 2pm ar ddydd Sul, 26 Mehefin.

*(allan o* Llais y Tabernacl, *Porthaethwy Sulgwyn 2022)*

## Ffrwd fyw

Darlledir ffrwd fyw o gyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr 2022. Ewch i wefan annibynwyr.cymru i wylio.

# Colofn Natur a Gwyddoniaeth

## Pryfed y Beibl



Credir bod yna ryw ddeng miliwn o wahanol rywogaethau o bryfed yn rhannu'r blaned â ni. Rydym wedi adnabod a disgrifio rhyw filiwn ohonynt. Prin yw'r sylw a roddir iddynt yn y Beibl, ond defnyddia awduron llyfrau'r Beibl gwahanol fathau o bryfed i adrodd straeon a disgrifio ymddygiad. Cymerwch y cyfeiriad enwocaf efallai, y morgrugyn. Yn Llyfr y Diarhebion (6: 6–8) ceir cymhariaeth o brysurdeb morgrugyn ag ymdrechion llipa'r diogyn. Mae'r morgrugyn yn storio bwyd ac yn casglu cynhaeaf heb gymorth na goruchwyliwr.

### Diliau

Sonnir am fêl dros drigain o weithiau yn y Beibl. Mae crwybr yn cael ei gymharu â geiriau dymunol (Diarhebion 16:24). Yn Genesis (43:11), cyfeirir at fêl fel anrheg anrhydeddus; ac onid locustiaid a mêl oedd bwyd Ioan Fedyddiwr (Mathew 3:4). Ni chrybwyllir y wenynen yn aml er gwyddom i Samson ddod o hyd i haid o wenyn mewn sgerbwd llew (Barnwyr 14:9). Defnyddiodd Samson y ddelwedd o fêl y tu mewn i'r esgyrn fel pos i bryfocio ei briodferch. Yn ysgrythurol, defnyddir gwenyn i olygu 'mynd ar ôl rhywun'.



### Sboncyn

Mae criciaid a locustiaid yn bethau blin! Ceir sôn am y ddau yn Deuteronomium 28; roedd locustiaid yn un o'r Deg Pla (Exodus 10) a ddygwyd ar yr Aifft cyn i'r Israeliaid gael eu rhyddhau. Proffwyda Joel (1:4) am fyddinoedd o locustiaid; yn wir, mai'r proffwyd yn entomolegol ei destun gan ei fod yn sôn am bedwar math o locust: y cyw locust, locust yn ei dyfiant, y locust mawr a'r locust difäol.

### Cynrhon

Mae cynrhon a larfau yn gysylltiedig â dadfeiliad yn y Beibl. Fe gofiwch yr hanes yn Llyfr Jona (4:7), am y planhigyn sy'n cael ei ddinistrio gan gynrhonyn. Cyfeirir hefyd at gynrhon (neu fwydod mewn rhai cyfieithiadau) pan fu farw Herod yn Actau 12. Daw'r cyfeiriad enwocaf at gynrhon yn Llyfr Job (25: 6): 'Beth, ynteu, am feidrolyn, y llyngyren, ac un dynol, y pryfyn?' Yma, mae Bildad, un o gynghorwyr Job, yn siarad am sut na ellir cyfiawnhau dyn gerbron Duw.

### Piwiaid

Yn olaf, y gwybed, sy'n medru bod yn hynod o annifyr er cyn lleied eu maint. Yn Efengyl Mathew, mae'r Phariseaid yn cael eu galw'n rhagrithwyr sy'n 'hidlo'r gwybedyn ac yn llyncu'r camel.' (Math. 23:24) Mae hynny'n golygu bod y Phariseaid yn chwilio am droseddau bach o'r gyfraith wrth esgeuluso'r pethau mwy, fel cyfiawnder a thrugaredd. Roedd gwybed hefyd yn un o Ddeg Pla yr Aifft. Ceir hefyd amrywiol gyfeiriadau at elod, pry genwair a chorynod ... efallai bydd rhaid dychwelyd at rheini eto.

**Hefin Jones**

Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 7 2022 RHIF 71

# Arfon Jones, DD

## Dyfarnu gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth er anrhydedd i Arfon am ei waith gyda beibl.net


Llongyfarchiadau enfawr i Arfon Jones, DD, ar yr anrhydedd o dderbyn gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth gan Brifysgol Bangor. Ymhlith y rhestr o bobl ar wefan Prifysgol Bangor sy'n derbyn graddau eleni, nodir fel a ganlyn:

Arfon Jones, graddedig o Fangor sy'n enwog am ei gyfraniad i ddiwylliant crefyddol Cymru ac am gynhyrchu testun academaidd syml, dealladwy o'r Beibl Cymraeg sy'n cyd-fynd â diwylliant cyfoes.

Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog i Arfon, gan ddiolch am ei gyfraniad i fywyd Cristnogol ein cenedl.

Pan ddechreuodd Arfon drosi'r Ysgrythur i Gymraeg a fyddai'n ddealladwy i ieuenctid a dysgwyr yn nechrau nawdegau'r ugeinfed ganrif, fel 'aralleiriad' roedd yn bwriadu gwneud hynny. Ond wrth drafod y gwaith gyda'r United Bible Societies, ac esbonio mai trosi o'r ieithoedd gwreiddiol, Hebraeg a Groeg, a wnâi, yn unol â'r ddisgyblaeth academaidd fanylaf, fe wnaethon nhw gadarnhau mai 'cyfieithiad' oedd beibl.net mewn gwirionedd, ac nid 'aralleiriad'. Wedi sicrhau eu cefnogaeth, cafodd ddefnydd o feddalwedd cyfieithu arbenigol ac ymuno â rhwydwaith rhyngwladol o ysgolheigion beiblaidd academaidd a phroffesiynol oedd yn arbenigo ar gyfieithu'r Ysgrythrau i amrywiaeth o ieithoedd mewn idiom cyfoes. Y bwriad bob amser oedd cyhoeddi'r gwaith yn electronig, a dyna a wnaed, gyda 27 llyfr y Testament Newydd ar gael erbyn 2005 a gweddill y Beibl – 39 llyfr yr Hen Destament – yn barod erbyn 2013.

Pan ddaeth yn fater o gyhoeddi fersiwn copi caled, mynnodd Cymdeithas y Beibl gyhoeddi beibl.net ochr yn ochr â'r Beibl Cymraeg Newydd (BCN) a'r Beibl Cymraeg Newydd Argraffiad Diwygiedig (BCND) a'i hyrwyddo fel y fersiwn cydnabyddedig cyfoes ar gyfer yr oes ddigidol. Ers ei gyhoeddi yn 2015, mae bellach wedi mynd drwy bedwar argraffiad, gan werthu dros 15,000 o gopïau; yn ychwanegol at hynny, cyhoeddwyd fersiwn print bras yn ogystal â'r *Beibl Lliw*, sef y Beibl lliw cyntaf erioed yn y Gymraeg. O ran y defnydd eang sy'n cael ei wneud o beibl.net mewn clawr




caled ac ar y we, enillodd ei le fel y fersiwn mwyaf poblogaidd o'r Beibl cyfoes yn Gymraeg, tra mae'r *Beibl Lliw* wedi cael derbyniad arbennig hefyd. Er bod sawl Beibl lliw i blant, aralleiriadau syml o'r stori oeddent, ond dyma'r tro cyntaf i Feibl lliw gael ei gyhoeddi a oedd yn cynnwys y testun beiblaidd ei hun, heb fod yn aralleiriad.

A'r gwaith gyda throsi'r Beibl wedi'i gwblhau, mae Arfon wedi ymddiddori fwyfwy yn hanes y Beibl Cymraeg gan sicrhau bod fersiwn William Salesbury o'r Testament Newydd (1567) ynghyd â'r Salmau ar gael i'w lawrlwytho, ynghyd â chyfieithiadau eraill megis *Y Ffordd Newydd* (1971). Datblygodd hefyd Ap fel bod pob un o'r fersiynau hyn ar gael ar gyfer i-Pad a ffôn symudol.

Mae cyfraniad Arfon i fywyd ysbrydol y genedl yn fwy o lawer na'r uchod. Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf mae wedi cyfieithu neu addasu dros dri chant o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes, llawer ohonynt yn *Canueon Ffydd* ac eraill sydd i'w gweld ar wefan Cyngor yr Ysgolion Sul, sef gobaith.org. Mae'n awdur cyfrolau gwreiddiol megis *Llefara Arglwydd: Arweiniad i'r Ffydd Gristnogol* (1983), *Heddychiaeth Gristnogol* (1984), *Y Beibl ... ar Ferched* (2018), heb sôn am lu o addasiadau megis *Cristnogaeth go iawn* (1987), *Maplyfr y Beibl* (2003), *42*, sef hanes 42 o Gristnogion enwog cyfoes (2017) a channoedd o astudiaethau yn y wasg grefyddol ar hyd y blynyddoedd. Mae ganddo golofn ddeufisol yn y cylchgrawn cydenwadol *Cristion* ers deng mlynedd.

Mae Arfon Jones yn uchel ei barch ar draws y sbectrwm Cristnogol cyfan, o'r Eglwys yng Nghymru hyd at y mudiadau Pentecostaidd Saesneg eu hiaith. Ychydig a all ennyn ymddiriedaeth pob carfan, yn eciwmenaidd, yn enwadol ac yn efengylaidd, ond llwyddodd Arfon i wneud hynny trwy ei ddiffuantrwydd, ei ysbryd brawdol a'i lafur diflino dros gael yr Ysgrythur yn nwylo'r genhedlaeth sy'n codi. Yn ŵr gradd o Brifysgol Bangor, daeth â chlod arbennig i'w *alma mater*.

Yn frodor o Gellïoedd, Llangwm, ac wedi'i fagu yn Nyffryn Clwyd, graddiodd Arfon yn BMus o Adran Gerdd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor (fel yr oedd y pryd hynny) yn 1975, gan ddilyn hynny â gradd BD, eto o Fangor, yn 1978. Bu'n gweithio am flwyddyn gyda'r diweddar Barchg T. J. Davies yn swyddog gyda'r Cyngor Unedig ar Alcohol a Chyffuriau Eraill cyn ei benodi'n Swyddog Ieuenctid cyntaf Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Symudodd yn 1989 i fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru, ac yna, yn 1999, yn swyddog maes y mudiad newydd Gobaith i Gymru.

Yn ogystal â darparu deunydd addoli i'r eglwysi – emynau arloesol y 'canu newydd' yn y gyfrol *Grym Mawl*, er enghraifft – ac addasiadau o gyfrolau lliw llawn gan gwmni rhyngwladol Lion Publishing, prif fenter y mudiad oedd creu'r wefan www.beibl.net a pharatoi fersiwn cyfan o'r Beibl mewn Cymraeg cyfoes. Wedi ymarfogi'n academaidd ar gyfer y gwaith trwy ddilyn cwrs gradd uwch yng Ngroeg y Testament Newydd a Hebraeg, ef a fu'n bennaf cyfrifol am drosi'r testun i ieithwedd sy'n gweddu i ddiwylliant ieuenctid yr unfed ganrif ar hugain ac i ddysgwyr. Mae natur y fenter a'i llwyddiant diamheuol wedi'u nodi yn y crynodeb uchod.

Yn aelod, diacon a phregethwr lleyg yn Eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd, mae Arfon yn briod â Rachel, ac mae ganddynt dri o blant.

# Swyddog Eco-eglwys newydd i helpu i roi hwb i'r gweithredu ynghylch byd natur a'r hinsawdd mewn eglwysi ledled Cymru

Mae Delyth Higgins wedi ymuno â'r elusen gadwraeth Gristnogol, A Rocha UK, yn swyddog Eco-eglwys i Gymru. Mae Delyth yn ymuno â ni ar adeg pan fo galw cynyddol am y cynllun Eco-eglwys (Eco Church) wrth i fwy o eglwysi ofyn am gymorth i gymryd camau ymarferol i ofalu am ddaear Duw. Mae Delyth yn medru'r Gymraeg ac yn byw yn Abertawe. Yn flaenorol, bu'n gweithio gydag Adfywio Cymru (Renew Wales), y rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi grwpiau cymunedol i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae nifer sylweddol yng Nghymru wedi ymuno â'r cynllun Eco-eglwys, ac mae mwy na 150 o eglwysi wedi cofrestru. Mae'r adborth gan yr eglwysi hyn wedi amlygu'r galw am bresenoldeb mwy rhanbarthol er mwyn cydlynu digwyddiadau, rhwydweithiau, a hyrwyddo'r cynllun.

Nod A Rocha UK yw ehangu a dyfnhau cwmpas y cynllun Eco-eglwys yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd mwy o eglwysi o wahanol feintiau ac enwadau yn cofrestru gyda'r cynllun.

Mae Cymru'n gartref i eglwysi mawr mewn dinasoedd sy'n tyfu, ond hefyd i gapeli a phlwyfi traddodiadol bychain yn y wlad, ac mae Delyth yn gobeithio annog llawer ohonynt i ddod yn Eco-eglwysi.

Bydd yr eglwysi yn elwa o ddysgu ar y cyd, cefnogaeth, syniadau ac adnoddau, yn ogystal â siarad â'r rhai sydd eisoes wedi gwneud rhywbeth tebyg. Mae adnoddau Eco-eglwys newydd ar gael eisoes yn Gymraeg, a bydd Delyth yn adeiladu ar y rhain, yn ogystal â gallu cynnig mwy o sgyrsiau a digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae A Rocha UK yn gweithio i ddiogelu ac adfer byd natur trwy alluogi Cristnogion ac eglwysi yn y Deyrnas Unedig i ofalu am yr amgylchedd fel rhan reolaidd o'u bywyd unigol a chenhadaeth eu heglwys.

Meddai Delyth: "Ers symud tŷ dair blynedd yn ôl, rwy wedi dod yn fwy ymwybodol fyth o fyd natur, ac rwy'n ymddiddori yn yr amrywiaeth aruthrol o adar rwy'n eu gweld yn dod i'r ardd a'r golygfeydd hardd tua'r mynyddoedd yn y gogledd – ym mhob un o'r tymhorau wrth iddyn nhw newid. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â'r bobl ar draws Cymru sydd wedi cychwyn ar y cynllun Eco-eglwys, sy'n gwneud hynny'n awr, ac a fydd yn gwneud hynny, ac yn arbennig at feithrin perthynas a rhwydweithiau ymhlith eglwysi ledled Cymru, fel bod modd iddyn nhw ddysgu oddi wrth ei gilydd, cefnogi ei gilydd ac annog ei gilydd."

Meddai Helen Stephens, Rheolwr Cysylltiadau Eglwysi yn A Rocha UK: "Rydyn ni'n awyddus i hyrwyddo a gwreiddio Eco-eglwys yn ddyfnach ledled Cymru, gan ein bod yn cydnabod bod heriau unigryw mewn gwahanol rannau o'r wlad. Felly rydyn ni wrth ein bodd yn croesawu Delyth Higgins i A Rocha UK er mwyn ehangu a dyfnhau gwaith Eco-eglwys yng Nghymru, ar adeg pan na fu erioed fwy o frys i'r Eglwys gyflawni ei rôl (ochr yn ochr â sectorau eraill y gymdeithas) wrth ofalu am ein planed werthfawr.

ECO CHURCH
AN A ROCHA UK PROJECT



Mae hi'n dod â dealltwriaeth a doethineb o'i blynyddoedd yn Adfywio Cymru, lle bu eisoes yn gweithio gydag eglwysi ar y newid yn yr hinsawdd, a chan ei bod wedi byw yng Nghymru ar hyd ei hoes, mae ganddi ddealltwriaeth ddofn o'r diwylliant. Mae hi'n ymuno â thîm Eco-eglwys prysur iawn, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda hi."

*Tamsin Morris*
*Swyddog y Wasg,*
*A Rocha UK*

# O'r Beibl: 7

Cyfres ar gyfer astudiaeth bersonol neu fel grŵp

## Gair o Genesis

'Oes yna obaith i'r ddynoliaeth?'

**Darllen: Genesis 3:8–24**


Mae gobaith yn beth tra phrin heddiw. Wrth i'r byd wynebu pandemig a rhyfel, mae gobaith yn ymddangos yn bell i ffwrdd. Hyd yn oed lle mae gobaith i'w gael, mae'n aml yn rhywbeth sentimental ac arwynebol, rhyw ddymuniad ansicr fod y byd – rhyw ddydd – yn mynd i fod yn lle gwell. Ond beth sy'n gwarantu'r fath ddymuniad?

Heddiw, mae'r ddynoliaeth yn chwilio am obaith sicr a phendant, gobaith sy'n wir a dibynadwy, gobaith sy'n obaith go iawn ac nid yn ddymuniad di-sail.

Dyma'r union fath o obaith sydd gan y Beibl i'w gynnig i ni. Er mor ddifrifol yw sefyllfa'r ddynoliaeth wedi'r Cwymp, mae nodyn o obaith i'w gael yn Genesis 3. Wrth i Dduw gosbi'r sarff am dwyllo Adda ac Efa, mae'n dweud y geiriau arwyddocaol hyn: 'Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau; a bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau'n ysigo'i sawdl ef' (Genesis 3:15).

Wrth ddarllen penodau cyntaf Genesis, gwelwn fod y sarff yn cynrychioli rhywbeth mwy na dim ond ymlusgiad o neidr. Mae'r sarff yn cynrychioli Satan neu'r Diafol. Felly, yr hyn mae Duw'n ei ddweud yn Genesis 3:15 ydy y bydd gelyniaeth rhwng Satan a 'had' (neu 'ddisgynnydd') Efa. Bydd yr elyniaeth hon yn para hyd at y diwrnod pan fydd had y wraig yn 'ysigo' (h.y. gwneud niwed) pen y sarff a'r sarff yn 'ysigo' sawdl had y wraig.

Ond pwy yw 'had y wraig'? Ar hyd y canrifoedd, mae Cristnogion wedi deall mai'r Arglwydd Iesu Grist yw'r person rhyfeddol hwn. Fe yw'r un sy'n ddisgynnydd perffaith i Adda ac Efa (Luc 3:38). Fe yw 'had' y wraig (Rhufeiniaid 1:3). Ac wrth iddo farw ar groes Calfaria, dyma'r Diafol yn 'ysigo' sawdl Iesu. Hynny yw, dyma Satan yn niweidio Iesu gan dybio ei fod wedi ei drechu am byth. Ond, mor anghywir oedd yr Un Drwg! Oherwydd, wrth i Iesu gael ei hoelio ar y groes, dyma fe'n 'ysigo' pen Satan. Hynny yw, dyma fe'n torri pen Satan i ffwrdd gan orchfygu pŵer pechod a'r Diafol am byth. Er i Satan niweidio'i sawdl, sathrodd Iesu ar ei ben.



Dyma ydy gobaith sicr y Cristion. Mae'r broffwydoliaeth hon yn awr wedi'i chyflawni; mae Crist wedi marw ac mae Satan wedi'i drechu! Rydym yn gwybod yn sicr y bydd pechod, anghyfiawnder, dioddefaint a marwolaeth yn dod i ben. Mae Iesu eisoes wedi'u concro ar y groes, a phan ddaw'n ôl ar y dydd olaf bydd yn cael gwared ohonynt am byth. Felly, yn wyneb pob sefyllfa, gall y Cristion fod yn llawn gobaith sicr.

*Gwilym Tudur*

**Trafod ac ymateb:**

- Beth sy'n peri inni anobeithio?
- Ar beth allwn ni seilio ein 'gobaith'?
- Ym mha ffyrdd y gallwn ni rannu a gweithredu ar y gobaith sydd ynom (1 Pedr 3:15)?

S4C

**Sul, 10 Gorffennaf, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)**
Wrth i'r gyfres ddirwyn i ben, bydd Nia yn ein tywys drwy rai o uchafbwyntiau'r gyfres bresennol o *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* – o ganu grymus i straeon teimladwy o bob cwr o Gymru.

Dyma gopi o gylchlythyr Dechrau Canu, Dechrau Canmol am fisoedd Mehefin a Gorffennaf.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 10 Gorffennaf, am 7:30yb a 4.30yp**
Iwan Williams yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Unedig Pen Llŷn o gapel Rhydbach, Botwnnog.

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 10 Gorffennaf, am 12:00yp**
Gwasanaeth dan ofal dan ofal Beti Wyn James, Caerfyrddin, Llywydd Undeb yr Annibynwyr

# Pererindod Gofalaeth Bröydd Myrddin gan Dr Emyr Gwyn Evans

Ar ddydd Sul 26 Mehefin yn hytrach na theithio ar fws ar daith bellennig fe deithiodd ein haelodau eleni yn eu ceir lan i Bencader a cherddodd rhai i ogof Cwmhwplin. Gan ei fod yn flwyddyn pedwar canmlwyddiant geni Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin, y bererindod eleni oedd ymweld â safle hanesyddol ogof Cwmhwplin, fel y caiff ei alw, ar gyrion pentref Pencader yn Sir Gaerfyrddin.



*Y Tabernacl, Pencader*

## Oedfa o fawl

Cychwynnwyd y diwrnod gydag oedfa o addoliad yng nghapel yr Annibynwyr y Tabernacl, Pencader. Cawsom ein croesawu gan weinidog yr eglwys sef y Parchg Chris Bolton a chymerwyd at yr oedfa gan y Parchg Emyr Gwyn Evans. Gan mai talu gwrogaeth i Stephen Hughes a saint cynnar yr Annibynwyr yn y cylch yng nghyfnod yr erlid mawr ar yr Ymneilltuwyr yn ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg oedd ein bwriad, ynghyd ag addoli yng nghapel y Tabernacl, yr eglwys sydd yn fam eglwys i hen achos Pant-teg, roeddem wedi trefnu i ganu emynau neilltuol. Agorwyd y mawl trwy ganu emyn Elfed, 'Am bawb sy'n wrol dros y gwir' gan gofio am dystiolaeth llu'r merthyri. Darllenwyd hanes y gweddnewidid a hanes Iesu'n dod i lawr o'r mynydd gan Chris ac wedi amser o weddi canwyd yr emyn yn seiliedig ar yr hanes sef 'Yma'n hedd y mynydd sanctaidd' o waith Thomas Jones, Pencader.

## Stephen Hughes

Wedi'r emyn cyflwynodd Maria Evans ddetholiad o benillion y Ficer Prichard ac yna cafwyd anerchiad ar hanes cyfraniad Stephen Hughes yng nghefndir yr erledigaeth a fu ar yr Ymneilltuwyr a'r Anghydffurfwyr yn ei ddydd a'i oes. Talwyd teyrnged i Stephen Hughes fel efengylydd a phregethwr, ac fel bugail tyner a gofalus o'r cynulleidfaoedd yr oedd wedi eu cynnull a lle plannwyd ganddo eglwysi Annibynnol. O gofio'r llaw a fu ganddo mewn plannu achosion ledled Sir Gaerfyrddin, ac ar ei ffiniau yn siroedd Penfro, Aberteifi a Brycheiniog, daethpwyd yn gwbl amlwg pam ei fod yn cael ei adnabod yn hanesyddol fel 'Apostol Sir Gaerfyrddin'.

## *Canwyll y Cymry*

Cofiwyd hefyd am ei gyfraniad aruthrol ym myd addysg a hyrwyddo llenyddiaeth Gymraeg ac yn arbennig am ei waith yn casglu penillion y Ficer Prichard gan roi'r enw *Canwyll y Cymry* ar y casgliad cyflawn o'r penillion. Cyfeiriwyd at ei gyfraniad yn cyhoeddi 86 o lyfrau defosiynol Cymraeg yn cynnwys ym mlwyddyn ei farw yn 1688, ac am y tro cyntaf yn yr iaith Gymraeg, glasur enwog John Bunyan *Taith y Pererin*, cyfrol y bu darllen helaeth arni dros y canrifoedd ymhlith y Cymry. Ac o gofio ei fod yn llafurio yn ei ddydd mewn cyfnod nad oedd fawr o gariad tuag at y Gymraeg mewn cylchoedd eglwysig ac addysgol gyda llawer o wybodusion yn chwennych gweled tranc yr iaith Gymraeg, gogleisiol iawn yng nghyd-destun hyn oedd clywed y dywediad a fathwyd gan Hughes, 'haws dywedyd mynydd na myned trosto.' Mae lle i gredu y byddai gan Hughes fel yr hen ŵr o Bencader ffydd yn rhagluniaeth Dduw a hyder mai'r Gymraeg fyddai'n cael ei siarad yn ardal Pencader hyd at Ddydd y Farn! Stephen Hughes hefyd fathodd y dywediad, 'elusen i'r enaid yw llyfr da yn llaw dyn' ac o gofio am ei gyfraniad, mae'n sicr yn deilwng o gael ei gydnabod fel un o gymwynaswyr y Gymraeg. A chan ddeisyf am heddwch yn ein byd daethom a'r oedfa i ben trwy ganu emyn o waith un o gyn weinidogion y Tabernacl sef y diweddar D. Gwyn Evans, Aberystwyth, 'Pan rwystrir ni gan bethau'r llawr' gyda'r cyfeiriad at ddyddiau'r tadau a'r erlid ar y gwir yn y pennill olaf.

## Stori Ogof Cwmhwplin

Un tro roedd Stephen Hughes ar daith
Drwy Sir Gaerfyrddin wrth ei waith,
A daeth i fan ddydd Llun y Pasg,
Lle y cwrddodd â'r caletaf dasg.
Roedd yno dwr o fechgyn cryf
Yn chwarae ar yr ŵyl yn hyf;
Ac meddai y pregethwr plaen
Yng nghlust y gŵr oedd ar y blaen:
'Tyrd gyda mi, cei fwy o hwyl
Na mabolgampau ar yr ŵyl.'
A mynd a wnaeth y gŵr yn syn
I weled y difyrrwch hyn.
O'r diwedd daeth y ddau i gwm
Yn gorwedd rhwng mynyddoedd llwm.
Ac yno yr oedd tyrfa fawr
Yn plygu ar eu gliniau i lawr
Mewn ofon rhag gelynion cas,
A moli'r Iesu am Ei ras.
Aeth Stephen Hughes i weddi gref
Ar ran y gŵr oedd gydag ef,
A hwnnw mewn teimladau trist
A'i rhoes ei hun i Iesu Grist,
A daeth yn gefn i'r efengylwr mad.
Mae hanes cwrdd Cwmhwplin gynt,
I'w glywed eto yn y gwynt.

**John Dyfnallt Owen**

*Bydd ail ran hanes y bererindod hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*



*Y criw ar glos Cwmhwplin o flaen y tŷ*

## Barn Annibynnol

# Dathlu!

Fyddwch chi'n hoffi dathlu?
'Wel am gwestiwn gwirion, Mererid. Wrth gwrs ein bod yn hoffi dathlu!'

Y cwestiwn nesaf ydy *sut* fyddwch chi'n hoffi dathlu? Ydach chi'n hoffi clamp o barti efo llond lle o bobl, bwyd a diod a difyrrwch? Neu efallai mai dathliad distawach, mwy personol gyda'r rhai sy'n agosach atoch chi sy'n taro deuddeg?

Mae fy mab hynaf, Gwydion a'i ffrindiau wedi dewis dathlu gorffen eu harholiadau Lefel A drwy fynd i Palma Nova yn Majorca ar wyliau. Bu'r cyfnod clo yn hynod anodd i bobl ifanc yn eu harddegau canol a hwyr gan i'r rhyddid roeddent wedi dechrau ei fwynhau ddiflannu dros nos. I rieni, doedd dim rhaid poeni ble'r oedd eich plant a beth oedden nhw'n ei wneud oherwydd am fisoedd yn 2020 a 2021 roedd pawb yn gwybod ble'r oedden nhw – yn eu hystafelloedd gwely. Braf oedd gweld y criw yn cael mynd am wythnos o hwyl yn yr haul i ddathlu diwedd cyfnod cyn iddynt fynd ar eu ffyrdd gwahanol i astudio ymhellach neu i fyd gwaith.



### Cyfarfodydd Blynyddol

Mae Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn ddathliad blynyddol; cyfle i ddod at ein gilydd i ddathlu, cefnogi'n gilydd fel eglwysi ar hyd a lled y wlad a thrafod ein gweledigaeth i'r dyfodol. Ond eleni, bydd mwy o ddathlu na'r arfer gan mai dyma'r cyfle cyntaf i bawb ddod at ei gilydd ers Undeb 2019 a hefyd, eleni bydd dathlu pen-blwydd yr Undeb yn 150. Rydan ni'n hoffi cerrig milltir, yntydan? Pen-blwydd cyntaf plentyn, cychwyn yn yr ysgol uwchradd, troi'n ddeunaw, priodas arian, priodas aur, canfed pen-blwydd! Bydd dathliadau gwahanol i nodi'r gwahanol gerrig milltir, ond mae'n debyg mae'r hyn sy'n debyg yn y dathliadau i gyd ydy fod pobol yn dod at ei gilydd. Digon diflas ydy dathlu ar eich pen eich hun, ynde?

Caerfyrddin UNDEB 150 1872-2022

### Diolchgarwch

Sut ddylsen ni ddathlu pen-blwydd yr Undeb yn 150 felly? Mi fydd pobol yn dod at ei gilydd – felly dyna ddechrau da; mae dathlu'r gymdeithas sy'n rhan o fod yn eglwys yn hanfodol. Ac yn ail, dwi'n credu fod yn rhaid i ddiolchgarwch a mawl fod yn ganolog i'r dathlu. Diolchwn am 150 o flynyddoedd o dystiolaeth a gweithgaredd; yn aml yn digwydd yn dawel ac yn y cefndir; pobol yn tystio i efengyl Crist yn eu bywydau a thrwy eu ffyddlondeb i'w eglwys yn eu cymuned. Dyna ddiolch sydd gennym i'r cwmwl tystion a'r rhai sydd wedi ein harwain yn y ffydd.

### Edrych ymlaen

Diolchwn i Dduw am ei arweiniad a'i ffyddlondeb i ni fel unigolion a chynulleidfaoedd ar hyd a lled y wlad. Allwn ni ddim diolch heb fynegi ein mawl o gael bod yn rhan o deulu mor arbennig ag Eglwys Iesu Grist. Mae'n dda edrych yn ôl a dathlu, ond cyffrous hefyd ydy edrych ymlaen at y garreg filltir nesaf. Wyddon ni ddim beth sydd o'n blaenau, yn unigolion, cynulleidfaoedd nac Undeb, ond mi allwn fod yn sicr o un peth, y bydd Duw yn Iesu yn cerdded gyda ni; y tu ôl i ni ac o'n blaen wrth ein cynnal a'n hannog ymlaen.

Gyda llaw, roedd Salem, Caernarfon yn dathlu eleni hefyd – dathlu 160 mlynedd ers sefydlu'r achos yn 1862. Yn 1865 daeth y Parchedig E. Herber Evans yn weinidog i'r dref. Dwi am orffen y pwt yma gyda phennill o'i emyn sydd i'w gael yn *Caneuon Ffydd* (726):

Tywys di fi i'r dyfodol,
Er na welaf fi ond cam;
Cariad Duw fydd eto'n arwain,
Cariad mwy na chariad mam.
Mae Calfaria'n profi digon,
Saint ac engyl byth a'i gŵyr;
Er i'r groes fod yn y llwybyr
Bydd goleuni yn yr hwyr.

**Mererid Mair**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

## Cwrs yr Haf

**Pobl y Ffordd ar dir Cymru**
Agweddau ar Hanes yr Eglwys

**7 o'r gloch, nos Fawrth**
**12 ac 19 Gorffennaf**
ALED JONES, Cyfarwyddwr a Chydlynydd Hyfforddi'r Coleg

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth
parch.aled@yahoo.co.uk

## Eisteddfod Tregaron

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni, danfonir cyfarchion cynhesaf Sir Ceredigion, a'i thrigolion i bedwar sydd â misoedd heriol o'u blaen. Wrth i Maldwyn Lewis, Penrhiw-pâl ddod yn is-gadeirydd y sir gyda chymorth ei briod y Parchedig Carys Ann, ac Ifan Davies, Pontrhydfendigaid, Tregaron ddod yn gadeirydd y sir gyda chymorth ei briod Iona Davies. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt.



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin 2022

*Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan Halliwell, ar gampws Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP*

## DYDD IAU, 7 Gorffennaf

**1.30** **CYNHADLEDD 1**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Adroddiad Undeb Rhithiol 2021 (y *Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2023
i Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

**3.00** Te a chacen a chroeso

**4.00–5.00** Cyfarfod Heddwch

**5.30** Swper

**7.30** **CYFLWYNIAD** gan aelodau a chyfeillion eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin.

## DYDD GWENER, 8 Gorffennaf

**9.30** **CYNHADLEDD 2**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn: Parchg Gethin Rhys

**10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad ar Fuddsoddion yr Undeb
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- hyd at 3 i'r Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

**11.00** Te/coffi

**11.30** Y Drysorfa Gynorthwyol
Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
*Y Tyst*

**1.00** Cinio

**2.00** **CYNHADLEDD 3**
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol
Penderfyniadau
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Penderfyniadau
UFA

**3.30** Te/coffi

**4.00–5.00** **'Yr olaf o win yr haf: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1972-2022'**
**Darlith gan Parchg Ddr Geraint Tudur**

**5.30** Swper

**7.30** **OEDFA O FAWL** Capel Heol Awst, Caerfyrddin
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
**Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones**

## DYDD SADWRN, 9 Gorffennaf

**9.30** Defosiwn: Parchg Tom Defis, Cadeirydd y Pwyllgor Lleol

**9.40** Dathliad yr Undeb dan ofal Alun Lenny

**11.00** Te/coffi

**11.30** **OEDFA'R LLYWYDD**
Llywyddir gan Mr Dafydd Roberts,
Cadeirydd y Cyngor
Coffáu'r rhai a fu farw
Gweddi: Parchg Rhodri Glyn Thomas
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb
**ANERCHIAD Y LLYWYDD:**
**Parchg Beti-Wyn James**

**1.00** Cinio ac ymadael

***Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau***

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*